***Awst 2005***

## Eisteddfod Genedlaethol Eryri

Gwhoddwyd nifer o fudiadau o Wynedd i logi rhan o'r safle ehangach oedd Mantell yn ei llogi a denwyd llu o fudiadau i gymryd rhan. Ymysg y mudiadau oedd Pesda Roc, GISDA, Tabernacl cyf., Cyswllt Teulu, Cerddoriaeth Gymunedol, Gwalltgofiaid, Antur Waunfawr, Gwynedd Gynaladwy, NSPCC ac ASBA. 'Roedd yma gyfle i rai o fudiadau llai yng Ngwynedd i gael safle ar faes yr eisteddfod, rhywbeth na fyddant byth wedi gallu ei wneud ar eu pennau eu hunain.

'Roedd bwrlwm o weithgareddau wedi eu trefnu trwy'r wythnos gan gynnwys dawnsio salsa, peintio wynebau, chwarae drymiau jembe a llu o weithgareddau eraill. Agorwyd y stondin yn swyddogol gan Dewi Pws.

Bonws ychwnaegol i Mantell oedd ennill gwobr am y stondin orau yn y categori sector gwirfoddol. Derbyniwyd tlws arbennig mewn seremoni yn y pafiliwn – rhodd i'w gadw am flwyddyn gan Sefydlaid y Merched Cymru. Mae hyn yn dangos beth sydd yn bosib pan mae y sector i gyd yn cyd weithio ac yn cyd dynnu i gynnal digwyddiad o'r fath.